Fframwaith Arolygu

Arolygiaeth Carchardai EF

Mawrth 2023

Cynnwys

Adran 1	Cyflwyniad	3
Adran 2	Cyd-destun gweithredu	4
	Mandad	4
	Protocolau â sefydliadau partner	7
	Disgwyliadau	8
Adran 3	Y broses arolygu	10
	Y Rhaglen arolygu	10
	Arolygiad carchar	12
	Wythnos gyntaf yr arolygiad	13
	Asesu	18
	Arolygiadau ymadael	19
	Cyhoeddi adroddiadau	19
	Yn dilyn yr arolygiad	19
	Arolygiadau lle rhoddir rhybudd	20
	Hysbysiad brys	20
	Adolygiadau annibynnol o gynnydd	21
Adran 4	Rhagor o wybodaeth	24

Adran 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r fframwaith sy'n llywodraethu prosesau arolygu ac adolygu cynnydd Arolygiaeth Carchardai EF. Fe'i hategir gan lawlyfrau manwl ar gyfer arolygwyr ar y broses arolygu ac ysgrifennu adroddiadau, sydd ar gael ar ein gwefan.

1.2 Mae'r fframwaith yn rhoi ein gwaith yn ei gyd-destun, yn erbyn deddfwriaeth berthnasol ac o fewn rhwymedigaethau'r DU sy'n deillio o'i statws fel parti i'r Protocol Opsiynol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn Erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall (OPCAT). Mae'n nodi ein gwerthoedd a'r pedair thema strategol sy'n sail i'n gwaith.

1.3 Mae'r fframwaith hwn yn gymwys yn bennaf yn achos arolygu carcharorion oedolion, er bod yr un egwyddorion cyffredinol yn gymwys wrth arolygu dalfeydd eraill. Mae'n egluro'r fethodoleg a'r broses arolygu a sut yr ydym yn gweithio â sefydliadau partner.

1.4 Yn olaf, mae'n cynnwys manylion am y prosesau ar gyfer cynhyrchu adroddiadau arolygu a ffynonellau gwybodaeth bellach.

Section 2 Cyd-destun gweithredu

Mandad

2.1 Mae Prif Arolygwyr blaenorol wedi crynhoi diben yr Arolygiaeth fel a ganlyn:

> ‘Rydym yn sicrhau arolygu annibynnol o ddalfeydd, adrodd ar amodau a thriniaeth a hybu canlyniadau positif i’r rhai dan gadwad a’r cyhoedd.’

2.2 Mae’r datganiad o ddiben hwn yn deillio o bwerau deddfu a dyletswyddau Prif Arolygydd Carchardai EF a rhwymedigaethau’r DU sy’n deillio o’i statws fel parti i’r Protocol Opsiynol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn Erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall (OPCAT) a chadarnhad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn.

Deddfwriaeth

2.3 Mae cyfrifoldebau Prif Arolygydd Carchardai EF wedi’u nodi yn adrannau 5A a 43 o Ddeddf Carchardai 1952 (fel y’i diwygiwyd). Maent hefyd yn cynnwys arolygu (neu drefnu i arolygu) ac adrodd i’r Ysgrifennydd Gwladol ar:

- carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc (YOI), a chanolfannau hyfforddi diogel (STC) yng Nghymru a Lloegr;
- cyfleusterau dalfeydd mewn llysoedd yng Nghymru a Lloegr a hebryngwyr yn ôl a blaen o’r cyfleusterau hyn;
- cyfleusterau symud mewnfudwyr (IRC), cyfleusterau cadw tymor byr, llety cyn ymadael a threfniadau hebrwng ym mhob rhan o’r DU.

2.4 Yn benodol, bydd y Prif Arolygydd yn adrodd i’r Ysgrifennydd Gwladol ar driniaeth rhai dan gadwad ac amodau mewn sefydliadau.

Mae Atodlen A1 o Ddeddf Carchardai 1952 yn disgrifio pwerau a dyletswyddau pellach y Prif Arolygydd i gydweithredu ac ymgynghori ag arolygiaethau cyfiawnder troseddol eraill a chyrff eraill. Y rhain yw:

- dirprwyo unrhyw rai o’i swyddogaethau i awdurdod cyhoeddus arall;
- paratoi rhaglen arolygu a fframwaith arolygu y bydd yn rhaid ymgynghori â’r Ysgrifennydd Gwladol a chyrff penodedig arnynt (nid yw hyn yn atal y Prif Arolygydd rhag cynnal ymweliadau dirybudd);
- sicrhau nad yw arolygiadau gan gyrff penodedig eraill yn golygu baich afresymol ar sefydliadau o fewn ei gylch gorchwyl;
- cydweithredu â chyrff penodedig eraill lle mae’n briodol i wneud hynny i gyflawni ei swyddogaethau’n effeithlon ac effeithiol;

- gweithredu ar y cyd ag awdurdodau cyhoeddus eraill pan fydd yn briodol i wneud hynny i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithlon ac effeithiol;
- gweithredu ar y cyd ag arolygwyr cyfiawnder troseddol eraill i baratoi rhaglen arolygu ar y cyd y bydd yn rhaid ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol arni;
- rhoi cymorth i unrhyw awdurdod cyhoeddus arall i weinyddu eu swyddogaethau.

2.5 Mae'r rhan fwyaf o'r arolygiadau a gynhelir gan y Prif Arolygydd yn elwa ar gymorth arolygiaethau eraill ac mae arolygon STCau yn cael eu cynnal ar y cyd ag Ofsted a'r CQC.

2.6 Mi all y Prif Arolygydd hefyd gynnal arolygiadau o gyfleusterau eraill drwy wahoddiad, gan gynnwys arolygu cyfleusterau cadw milwrol gan gynnwys y Ganolfan Hyfforddiant Cywirol Milwrol a'r Cyfleusterau Cadw'r Lluoedd Arfog yn y DU, carchardai yng Ngogledd Iwerddon, (ar ran Criminal Justice Inspection Northern Ireland (CJINI), carchardai yn Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel a rhai carchardai tramor eraill mewn awdurdodaethau sydd â chysylltiadau â'r DU.

2.7 Rhaid i'r Prif Arolygydd baratoi adroddiad blynyddol i'w osod gerbron y senedd.

OPCAT

2.8 Mae'r DU yn barti i OPCAT. Mae OPCAT yn gytundeb hawliau dynol rhyngwladol sydd wedi'i lunio i gryfhau amddiffyniad i bobl sydd wedi'u hamddifadu o ryddid. Gan gydnabod bod pobl o'r fath yn arbennig o agored i gael eu cam-drin ac mae o'r farn y dylai ymdrechion i roi diwedd ar gam-drin roi pwyslais ar atal. Mae OPCAT yn cynnwys system o ymweliadau rhyngwladol a chenedlaethol i bob math o ddalfeydd. Ar lefel genedlaethol, mae OPCAT yn disgwyl i bartïon gwladwriaethol:

> 'Sefydlu, dynodi neu gynnal ar lefel ddomestig un neu sawl corff ymweld i atal arteithio, triniaeth neu gosbau annynol neu ddiraddiol... Bydd yr ymweliadau hyn yn cael eu cynnal gyda golwg ar gryfhau, os oes angen, gwarchodaeth y bobl hyn rhag artaith a thriniaeth neu gosbau creulon, annynol neu ddiraddiol eraill.

2.9 Adwaenir y cyrff ymweld hyn fel y Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM). Mae'r DU wedi dynodi 21 o gyrff i'w NPM. Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn cydlynu ac mae'n aelod o NPM y DU.

2.10 Fel lleiafswm, mae OPCAT yn mynnu bod NPMau:

- yn gweithredu'n annibynnol gyda phersonél annibynnol
- yn meddu ar arbenigedd digonol, cydbwysedd rhwng y rhywiau a chynrychiolaeth ddigonol o leiafrifoedd ethnig ac eraill
- yn cael yr adnoddau angenrheidiol

ac â'r pwerau i:

- archwilio'n rheolaidd driniaeth pobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid mewn dalfeydd
- gwneud argymhellion i'r awdurdodau perthnasol gyda'r nod o wella triniaeth ac amodau rhai dan gadwad (rhaid i'r Wladwriaeth ystyried argymhellion o'r fath a chynnal trafodaeth â'r NPM ynglŷn â'u gweithredu)
- cyflwyno cynigion ac arsylwadau sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth gyfredol neu ddrafft
- cael mynediad at bob gwybodaeth yn ymwneud â nifer, lleoliad a thriniaeth pob unigolyn sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid
- mynediad i bob dalfa
- cael cyfweliadau preifat â phawb sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid yn ogystal ag unrhyw unigolion eraill a all roi gwybodaeth berthnasol
- dewis y mannau maent am ymweld â hwy a'r bobl maent am eu cyfweld
- cysylltu â'r Is-bwyllgor ar Atal Arteithio (y corff rhyngwladol a sefydlwyd gan OPCAT i gynnal ymweliadau â dalfeydd ac i ymgysylltu â NPMau)
- sicrhau bod gwybodaeth a gesglir ganddo yn cael eu cyfrif yn freintiedig.

Datganiad cydraddoldeb ac amrywiaeth

2.11 Rydym wedi ymrwymo i greu a chynnal amgylchedd gweithio sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth. Rydym yn credu bod gwahaniaeth ac amrywiaeth yn ein gweithlu'n cryfhau'r gwaith rydym yn ei wneud a'r dylanwad sydd gennym.

2.12 Ein gweledigaeth yw:



Protocolau â sefydliadau partner

2.13 Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn cydweithio ag arolygiaethau eraill fel Ofsted, Estyn, Arolygiaeth Prawf EF, y Comisiwn Ansawdd Gofal, y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC), Arolygiaeth Iechyd Cymru (HIW) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW). Mae'r cydweithio hwn yn sicrhau bod gwybodaeth arbenigol ar gael wrth arolygu ac nad yw ymweliadau arolygu'n cael eu dyblygu.

2.14 Mae perthynas yr Arolygiaeth ag arolygiaethau partner, cyrff a arolygir a sefydliadau eraill yn cael eu llywodraethu gan nifer o gytundebau lefel gwasanaeth (CLGau), memoranda cyd-ddealltwriaeth (MOU) a phrotocolau cytunedig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- protocol a CLG cyfiawnder ieuenctid â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder
- cytundeb gweithio â NHS England
- Memoranda Cyd-ddealltwriaeth â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS), y Comisiwn Ansawdd Gofal, y Swyddfa Gartref (Mewnfudo a Ffiniau'r DU), Llu'r Ffiniau, y Prif Arolygydd Annibynnol Ffiniau a Mewnfudo, Grŵp Arolygu Tân Safleoedd y Goron (CPFIG), Cyngor Cenedlaethol ac Ysgrifenyddiaeth ar gyfer Byrddau Monitro Annibynnol, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF, NHS England, yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf, Arolygiaeth Iechyd Cymru, a'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol

- Protocolau ag Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon, Ofsted ac Estyn.

2.15 Mae cytundebau newydd yn cael eu llunio a/neu eu diwygio'n ôl yr angen ac maent ar gael ar wefan yr Arolygiaeth.

Disgwyliadau

2.16 Mae arolygiadau Arolygiaeth Carchardai EF yn cael eu cynnal yn erbyn meini prawf arolygu cyhoeddedig a adwaenir fel Disgwyliadau. Mae'r Arolygiaeth yn pennu ei meini prawf arolygu ei hun i sicrhau tryloywder ac annibyniaeth. Man cychwyn pob arolygiad yw'r canlyniad i unigolion dan gadwad. Mae Disgwyliadau'r Arolygiaeth yn seiliedig ar ac yn cyfeirio at safonau hawliau dynol rhyngwladol, gyda'r nod o hybu triniaeth ac amodau mewn dalfeydd sydd o leiaf yn cyrraedd safonau hawliau dynol sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol.

2.17 Mae disgwyliadau ar gyfer carchardai dynion a menywod a sefydliadau troseddwyr ifanc (YOI) wedi'u grwpio o gan y pedwar prawf o sefydliad iach:

Prawf	Canlyniad carchar iach
Diogelwch	Mae carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu dal yn ddiogel.
Parch (Gofal yn achos sefydliadau troseddwyr ifanc)	Mae carcharorion yn cael eu trin â pharch am eu hurddas dynol.
Gweithgarwch buddiol	Mae carcharorion yn gallu, a disgwylir iddynt, gymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n debygol o fod o fudd iddynt.
Adsefydlu a chynllunio ar gyfer rhyddhau (Ailsefydlu yn achos sefydliadau troseddwyr ifanc)	Mae carcharorion yn cael help i gynnal a datblygu perthnasoedd â'u teuluoedd a'u ffrindiau. Mae carcharorion yn cael eu helpu i leihau'r tebygrwydd o aildroseddu ac mae eu risg o niwed yn cael ei rheoli'n effeithiol. Mae carcharorion yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau'n ôl i'r gymuned.

2.18 Mewn sectorau arolygu eraill mae'r egwyddorion sy'n sail i'r cysyniad o sefydliad iach yn cael eu defnyddio, er bod y pwyslais penodol yn gallu amrywio'n ddibynnol ar eu perthnasedd.[1]

2.19 Mae'r Arolygiaeth yn cyhoeddi meini prawf arolygu i asesu triniaeth ac amodau ar gyfer:

[1] Yn achos canolfannau symud mewnfudwyr a theuluoedd mewn dalfeydd y pedwar prawf yw diogelwch, parch, gweithgareddau a pharatoi ar gyfer symud a rhyddhau; yn achos cyfleusterau dal tymor byr, y profion yw diogelwch, parch a pharatoi ar gyfer symud a rhyddhau; yn achos hebryngwyr tramor, y safonau yw diogelwch, parch a pharatoi ar gyfer ailintegreiddio. Mae disgwyliadau dalfeydd y llysoedd yn dod o dan y penawdau arweinyddiaeth, strategaeth a chynllunio, hawliau unigol, a thriniaeth ac amodau.

- dynion mewn carchar
- menywod mewn carchar
- plant yn y ddalfa
- unigolion dan gadwad mewn canolfannau goruchwyliaeth fanwl
- unigolion dan gadwad mewn canolfannau gwahanu
- mewnfudwyr dan gadwad
- unigolion yn nalfeydd y llysoedd
- unigolion mewn dalfeydd tri gwasanaeth a Chanolfan (MCTC)
- canolfannau hyfforddi diogel (ar y cyd ag Ofsted).

Mae'r rhain ar gael ar wefan yr Arolygiaeth:
https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/our-expectations/

2.20 Mae pob disgwyliad yn disgrifio safonau triniaeth ac amodau y disgwylir i sefydliad eu cyrraedd. Mae'r rhain yn cael eu hategu gan gyfres o 'ddangosyddion' sy'n disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad yn cael ei gyflawni. Nid yw'r rhestr o ddangosyddion yn gyflawn ac nid yw'n diystyru ffyrdd eraill o gyflawni'r disgwyliad.

Section 3 Y broses arolygu

Y Rhaglen arolygu

3.1 Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn gweithredu rhaglen o arolygon sydd bron i gyd yn rhai dirybudd (heblaw mewn amgylchiadau eithriadol), gyda phob arolygiad yn edrych ar argymhellion neu feysydd pryder fel sy'n gymwys o'r arolygiad llawn diwethaf. Mae isafswm amlder arolygu ar gyfer pob math o sefydliad, gydag amseriad arolygiadau'n fwriadol yn amhosibl i'w rhagweld. Mae dull o'r fath yn seiliedig ar, ac yn ymatebol i, wybodaeth a ystyriwyd ac asesiad risg rhagweithiol. Mae pob arolygiad sy'n dilyn arolygiad llawn blaenorol yn cynnwys asesiad o gynnydd ar weithredu ar bryderon neu argymhellion blaenorol.

3.2 Mae lleiafswm y cylch arolygu ar gyfer sectorau cadw gwahanol fel a ganlyn:

Sector	Amlder	Sylwadau
Carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc sy'n cadw oedolion ifanc, ac unedau arbenigol	Arolygir o leiaf bob pum mlynedd.	Bydd arolygiadau'n cael eu pennu gan asesiadau risg. Gall y rhan fwyaf o garchardai ddisgwyl cael eu harolygu bob dwy i dair blynedd. Mi all rhai sefydliadau risg uchel gael eu harolygu'n amlach. Fe'u cynhelir ar y cyd ag Ofsted/Estyn (Cymru) a'r Comisiwn Ansawdd Gofal/Arolygiaeth Iechyd Cymru.
Sefydliadau troseddwyr ifanc (sy'n cadw plant o dan 18 oed)	Ymweliadau blynyddol ar gyfer arolygiad neu adolygiad annibynnol o gynnydd.	Bydd yr Arolygiaeth yn cynnal adolygiad annibynnol o gynnydd (IRP) 8-12 mis ar ôl pob arolygiad, i adolygu'r cynnydd a wnaed gan arweinyddion a rheolwyr i weithredu ar argymhellion neu feysydd pryder a wnaed yn yr arolygiad blaenorol. Fe'u cynhelir ar y cyd ag Ofsted/Estyn (Cymru).
Canolfannau symud mewnfudwyr (IRC)	Arolygir o leiaf unwaith bob pedair blynedd, a phob dwy i dair blynedd	Bydd arolygiadau'n cael eu pennu gan asesiadau risg. Gall y rhan fwyaf o

Sector	Amlder	Sylwadau
	os yw'r ganolfan yn cadw plant.	ganolfannau ddisgwyl cael eu harolygu bob dwy i dair blynedd.
Cyfleusterau cadw tymor byr ar gyfer mewnfudwyr	Un neu ddau arolygiad cenedlaethol bob blwyddyn.	Mae arolygiadau cenedlaethol wedi'u rhannu'n gategorïau gweithredol a fydd fel arfer yn cynnwys, er enghraifft, yr holl gyfleusterau preswyl neu'r holl gyfleusterau sy'n cael eu rhedeg gan Lu'r Ffiniau mewn un arolygiad. Fodd bynnag, gall cyfleusterau unigol neu fathau o gyfleusterau gael eu harolygu ar unrhyw adeg ar sail asesiad risg.
Hebryngwyr mewnfudo	Arolygir dau neu dri o hebryngwyr bob blwyddyn.	
Dalfeydd y llysoedd	Arolygir tair ardal dalfeydd llysoedd bob blwyddyn.	
Canolfannau hyfforddi diogel (STC)	Arolygir yn flynyddol	Mewn partneriaeth ag Ofsted a'r CQC.
Canolfan Hyfforddiant Cywirol Milwrol	Arolygir o leiaf unwaith bob pedair blynedd.	Drwy gytundeb a gwahoddiad gan y lluoedd arfog.
Cyfleusterau cadw Lluoedd Arfog y DU (SCFs)	Arolygir o leiaf unwaith bob pedair blynedd.	Drwy gytundeb a gwahoddiad gan y lluoedd arfog.

3.3 Mae amseriad arolygiadau o sefydliadau'n seiliedig ar asesiad risg dynamig. Mae'r materion a ystyrir yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:

- yr amser sydd wedi mynd heibio ers yr arolygiad diwethaf
- natur weithredol a maint y sefydliad
- canlyniadau i unigolion dan gadwad yn ôl asesiadau carchar iach yr Arolygiaethau
- cynnydd IRP, os yn briodol

- newidiadau sylweddol i'r sefydliad neu newidiadau mewn arweinyddiaeth
- gwybodaeth a gafwyd drwy ohebiaeth neu ffydd eraill
- data diogelwch ac adroddiadau ar ddigwyddiadau HMPPS
- data perfformiad y carchar a gyhoeddwyd
- ymgynghoriadau ag arolygiaethau partner (yn ôl y gofyn)
- asesiad gofal iechyd yr Arolygiaeth
- oed yr adeiladau.

3.4 Mae'r Arolygiaeth hefyd yn ymgymryd â rhaglen flynyddol o waith thematig a gwaith ar y cyd ag arolygiaethau cyfiawnder troseddol ac eraill cysylltiedig.

3.5 Mae rhaglen arolygu ddrafft yn cael ei datblygu o fis Tachwedd ymlaen ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol. Mae nifer a math yr arolygiadau'n amodol ar ymgynghori'n unol â gofynion statudol. Cytunir ar y rhaglen tua thri mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol ond gall newid yn ystod y flwyddyn wrth i asesiadau risg newid.

Arolygiad carchar

3.6 Mae'r paragraffau canlynol yn disgrifio'r broses arolygu safonol ar gyfer carchardai dynion a menywod a sefydliadau troseddwyr ifanc. Mae'r broses ar gyfer arolygu sectorau cadw eraill yn seiliedig ar y fethodoleg graidd hon, ond wedi'i haddasu i ystyried natur benodol y sectorau hynny.

3.7 Mae'r broses o arolygu carchar fel arfer yn para pythefnos. Mae wythnos gyntaf yr arolygiad yn cynnwys arolygydd cydlynu'n treulio deuddydd yn y sefydliad. Bydd ymchwilwyr Arolygiaeth Carchardai EF hefyd yn mynd i'r carchar i gynnal arolwg o unigolion dan gadwad.

3.8 Mae ail wythnos yr arolygiad yn cynnwys yr arweinydd tîm a thîm o arolygwyr, gan gynnwys arbenigwyr ac arolygiaethau partner, a bydd yn para wythnos.[2] Bydd yr holl arolygwyr yn cael allweddi a bydd yn rhaid iddynt gael mynediad dirwystr i bob rhan o'r sefydliad, at ddogfennau perthnasol ac unigolion dan gadwad. Bydd arolygwyr yn cyfathrebu ag unigolion dan gadwad yn breifat, ac yn gyfrinachol, pan fydd angen.

3.9 O bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen i'r Prif Arolygydd gyhoeddi arolygiad ymlaen llaw. Yn yr achos hwn, bydd arolwg llawn o unigolion dan gadwad ac ymweliad cyn arolygu yn digwydd fel arfer bedair i chwe wythnos cyn yr arolygiad.

3.10 Mae gan yr Arolygiaeth Bolisi Tân, Iechyd a Diogelwch sy'n cynnwys polisïau ar wahân ac asesiadau risg ar ddiogelwch yn y maes, gweithio

[2] Gall trefniadau ar gyfer sectorau heblaw carchardai, fel sefydliadau troseddwyr ifanc, canolfannau hyfforddi diogel, canolfannau symud mewnfudwyr a dalfeydd y llys amrywio ond cânt eu rhannu â chyrff a arolygir ymlaen llaw.

unigol, gyrru ar ddyletswydd a'r protocol ar gyfer ymgysylltu ag unigolion dan gadwad mewn amgylchiadau eithriadol.

Wythnos gyntaf yr arolygiad

3.11 Ni fydd sefydliad yn cael rhybudd o fwy na 30 munud cyn arolygiad dirybudd. Ymwelir â phob rhan o'r sefydliad yn fuan ar ôl cyrraedd.

3.12 Diben yr wythnos arolygu gyntaf yw:

- ffurfio barn gychwynnol o'r sefydliad (pethau fel glendid, gwaith trwsio a hysbysiadau) a'r berthynas rhwng staff ac unigolion dan gadwad, ynghyd ag unrhyw feysydd sy'n achosi pryder a gasglwyd drwy wybodaeth benodol neu ddeunydd briffio'r arolygiad
- cwrdd â llywodraethwr/rheolwr y sefydliad a'r swyddog cyswllt penodedig ar gyfer yr arolygiad, sicrhau eu bod yn deall y broses arolygu ac yn rhoi sicrwydd
- sicrhau bod holl fannau risg uchel y sefydliad yn cael eu gwirio
- egluro rôl y swyddog cyswllt
- caniatáu i ymchwilwyr ddosbarthu a chasglu'r arolwg o unigolion dan gadwad
- gwneud trefniadau ar gyfer yr arolygiad, gan ddefnyddio'r pecyn arolygu paratoadol i ddangos pa ddogfennaeth fydd ei hangen a pha bryd y bydd ei hangen
- sicrhau bod y staff ymchwil ac arolygu'n ymwybodol o unrhyw risgiau, bygythiadau, gweithdrefnau gwagio'r adeilad yn achos tân ac unrhyw faterion iechyd a diogelwch eraill yn y sefydliad
- galluogi'r llywodraethwr/rheolwr i drafod unrhyw faterion perthnasol.

Yr arolwg unigolion dan gadwad

3.13 Elfen hanfodol o'r wythnos arolygu gyntaf yw cwblhau'r arolwg o unigolion dan gadwad. Bydd aelodau'r tîm ymchwil yn cynnal arolwg o gyfran gynrychioliadol o boblogaeth yr unigolion dan gadwad, sy'n ffynhonnell dystiolaeth allweddol. Dewisir y cyfranogwyr ar hap o bob adain/uned o'r sefydliad. Bydd yr arolwg yn ddienw a chyfrinachol. Mae'r ymchwilwyr yn siarad â phob unigolyn dan gadwad a ddetholwyd i egluro diben yr arolwg ac i fynd yn ôl i bob cell i gasglu'r arolwg yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw neu'r bore canlynol. Mae'n cymryd hyd at ddau ddiwrnod i ddosbarthu a chasglu'r arolwg.

3.14 Mewn arolygon carchar a rhai mawr eraill, defnyddir yr arolwg i wneud cymariaethau rhwng ymatebion unigolion dan gadwad o'r sefydliad sy'n cael ei arolygu ac ymatebion cyfunol unigolion dan gadwad mewn sefydliadau tebyg. Gwneir cymariaethau hefyd rhwng yr ymatebion cyfredol a'r rhai a gasglwyd ar adeg yr arolygiad diwethaf, ynghyd â dadansoddi ymatebion yn ôl nodweddion gwarchodedig. Rhoddir prawf ar ddata'r arolwg am arwyddocâd ystadegol ac fe'u hatodir â phob adroddiad.

3.15 Mae canfyddiadau'r arolwg yn elfen hanfodol o'r sylfaen dystiolaeth drionglog ar gyfer arolygu ac maent yn rhoi gwedd ddibynadwy a

chynrychioliadol ar farn y ‘cwsmer’ o’r driniaeth a’r amodau mewn sefydliadau cadw. Mae cwestiynau’r arolwg wedi’u seilio’n uniongyrchol ar y fersiwn berthnasol o Ddisgwyliadau.

3.16 Mewn cyfleusterau bychan iawn, fel cyfleusterau cadw tymor byr, defnyddir cyfweliadau unigol neu samplo drwy ddulliau eraill i ganfod barn unigolion dan gadwad.

Yr arolwg staff

3.17 Defnyddir arolwg staff ar-lein gan Arolygiaeth Carchardai EF mewn carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc ac IRCau i ganfod barn a phrofiadau staff sy’n gweithio yn y sefydliad sy’n cael ei arolygu. Mae’r arolwg yn cynnwys cwestiynau ynglŷn â’u llesiant yn ogystal ag am unigolion dan gadwad, arweinyddiaeth, a mynegi pryderon. Bydd ymchwilwyr Arolygiaeth Carchardai EF yn gofyn i’r swyddog cyswllt rannu’r ddolen URL ar y we at yr arolwg staff â’r holl staff sy’n gweithio yn y sefydliad ac yn eu gwahodd i gymryd rhan. Mae’r arolwg yn gyfrinachol a dienw. Mae’r arolwg yn agored i dderbyn ymatebion am saith diwrnod yn ystod wythnos gyntaf yr arolygiad.

3.18 Mewn arolygon carchardai a rhai mawr eraill, bydd ymatebion i bob cwestiwn o’r arolwg yn cael eu cyfrifo a’u hatodi ym mhob adroddiad. Hefyd, mae’r ymatebion i bob cwestiwn o’r arolwg yn cael eu tablu yn ôl rôl staff y sefydliad (ni chyhoeddir hyn i gadw cofnodion dienw/cyfrinachedd) i’w defnyddio i driongli tystiolaeth am yr arolygiad.

3.19 Gall canfyddiadau arolygon staff gynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am effaith bosibl triniaeth ac amodau unigolion dan gadwad mewn sefydliad.

Ail wythnos yr arolygiad

3.20 Bydd ail wythnos yr arolygiad yn para pum niwrnod. Bydd y sefydliad wedi cael rhestr bresenoldeb lawn o staff yr Arolygiad ar ddechrau’r arolygiad. Bydd pob arolygydd yn cael allweddi pan fyddant yn cyrraedd.

Y diwrnod cyntaf

Brîff y llywodraethwr/rheolwr

3.21 Bydd yr ail wythnos fel arfer yn agor gyda brîff ffurfiol ar y sefydliad gan y llywodraethwr/rheolwr.

3.22 Bydd arweinydd y tîm arolygu’n cyflwyno’r tîm ac yn briffio’r llywodraethwr/rheolwr am y broses arolygu. Bydd hyn yn cynnwys disgrifiad byr o’r prif fethodolegau; y defnydd o Ddisgwyliadau, a digwyddiadau a fydd yn digwydd yn ystod yr wythnos, fel adborth yr arolygydd ar ganfyddiadau sy’n dod i’r amlwg, yr ymweliad nos, a dyfodiad y Prif Arolygydd/Dirprwy Brif Arolygydd a’r gofynion.

3.23 Gwneir trefniadau hefyd i sicrhau ymgysylltiad llawn â’r Bwrdd Monitro Annibynnol, gan gynnwys cyfarfod a chyfranogi mewn sesiwn ôl-drafod

ar yr arolygiad. Bydd y tîm hefyd yn cynnig cwrdd â chymdeithasau staff.

Tystiolaeth ddogfennol

3.24 Bydd y tîm arolygu'n gofyn i'r sefydliad gyflenwi amrywiaeth o wybodaeth i'w helpu â'r broses arolygu. Dylid danfon y dogfennau i ystafell pencadlys y tîm ar gyfer diwrnod cyntaf yr arolygiad.

3.25 Bydd arolygwyr yn gyfarwydd â'r wybodaeth a gyflenwir sy'n ymwneud â'u meysydd arolygu. Bydd y dogfennau'n cael eu gwirio cyn y gofynnir am ragor o wybodaeth gan y sefydliad. Gwneir pob ymdrech i wneud cyn lleied â phosibl o geisiadau am dystiolaeth ddogfennol a data.

Arolygu

3.26 Defnyddir y fersiwn berthnasol o Ddisgwyliadau ym mhob arolygiad.

3.27 Mae'r fethodoleg arolygu'n seiliedig ar ddulliau cymysg o gasglu tystiolaeth mewn arolygiadau.

Mae pum prif ffynhonnell o dystiolaeth mewn arolygiad.

- **Arsylwi:** bydd arolygwyr yn gwneud arsylwadau mewn gwahanol leoliadau ac ar wahanol adegau o'r dydd (gan gynnwys amser cymdeithasu min nos). Bydd arolygwyr yn arsylwi ar ryngweithio ac yn asesu ansawdd perthnasoedd staff-unigolion dan gadwad. Bydd arsylwadau'n cynnwys ymweliad nos gan arolygwyr ac asesiad llawn o'r gweithdrefnau nos.

- **Unigolion dan gadwad:** mae gwrando ar lais rhai dan gadwad yn rhan allweddol o unrhyw arolygiad. Yn ychwanegol at yr arolwg, bydd arolygwyr yn siarad ag unigolion dan gadwad, naill ai'n anffurfiol ar yr adain neu mewn cyfweliadau un i un, i gael syniad o beth yn union sy'n digwydd yn y sefydliad. Gall arolygwyr hefyd gwrdd â grwpiau o rai dan gadwad ar gyfer trafodaethau. Os hoffai arolygwyr siarad ag unigolion dan gadwad nad ydynt yn medru Saesneg, byddant yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn. Gall unigolion dan gadwad siarad ag arolygwyr yn breifat a chyfrinachol.[3]

- **Staff:** yn ychwanegol at yr arolwg, bydd arolygwyr yn siarad yn anffurfiol â staff wrth iddynt gerdded o gwmpas y sefydliad ac mewn cyfweliadau unigol. Byddant yn holi staff am beth yn union sy'n

3 Bydd arolygwyr bob amser yn cadw'r egwyddor o gyfrinachedd, diogelwch a sensitifrwydd mewn cof wrth gyfweld unigolion dan gadwad. Dylai pob cyfweliad unigol â phobl wedi'u hamddifadu o'u rhyddid gael ei gynnal y tu hwnt i glyw pobl eraill, Yr eithriad i'r rheol hon yw os yw unigolion dan gadwad yn datgelu bygythiad i ddiogelwch neu lesiant unigolyn neu ddiogelwch y sefydliad neu os yw unigolyn dan gadwad wedi bod yn achos unrhyw niwed o ganlyniad i gyfathrebu â'r Arolygiaeth (a adwaenir fel dial neu gosb). Mae manylion llawn am ein cosbau a mesurau amddiffyn (diogelu), gan gynnwys pwy y gallwn rannu gwybodaeth â hwy, ar gael ar ein gwefan.

digwydd yn y sefydliad, am bolisïau a gweithdrefnau, am eu rolau unigol. Bydd yr arolygwyr yn siarad ag amrywiaeth o staff, gan gynnwys uwch reolwyr, staff adain, a staff arbenigol.

- **Trydydd partïon perthnasol:** bydd arolygwyr yn siarad â sefydliadau statudol ac anstatudol; er enghraifft cynrychiolwyr o'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, y Bwrdd Monitro Annibynnol, grwpiau gwirfoddol a chyfreithwyr, am eu profiadau ac am brofiadau'r unigolion dan gadwad maent yn eu cynrychioli. Gall ymwelwyr hefyd fod yn ffynhonnell dda o wybodaeth.

- **Dogfennaeth:** yn ychwanegol at y dystiolaeth ddogfennol a gyflenwir ar ddechrau'r arolygiad, bydd arolygwyr yn edrych ar gofnodion unigolion dan gadwad, fel llyfrau arsylwi, P-Nomis (System TG y Gwasanaeth Carchardai), data perfformiad o hyb perfformiad HMPPS, cofnodion dyddiol yr adain, gorchmynion cynlluniau gofal a chynlluniau cadw a hyfforddi/cynlluniau dedfrydu, i gadarnhau eu canfyddiadau. Mae peth tystiolaeth ddogfennol, gan gynnwys ffurflenni cwyno a data monitro SMART, yn caniatáu dadansoddi rhifol, a fydd yn galluogi patrymau i ymddangos. Gall y tîm arolygu hefyd gasglu tystiolaeth ffotograffig i ddangos amodau na ellir eu disgrifio'n ddigonol neu i bwysleisio canfyddiad, sy'n dilyn protocolau y cytunwyd arnynt â'r cyrff a arolygir.

Arweinyddiaeth

3.28 Mae Arolygiaeth Carchardai EF wedi cryfhau arolygiaeth o arweinyddiaeth drwy gyflwyno Disgwyliadau arweinyddiaeth.

Mae'r rhain yn ymdrin â'r meysydd canlynol:



- **Cyfeiriad:** Bydd arweinyddion yn cydweithredu â staff, rhanddeiliaid a charcharorion i bennu a chyfleu blaenoriaethau strategol a fydd yn gwella canlyniadau i garcharorion.

- **Ymgysylltu:** Bydd arweinyddion yn creu diwylliant lle bydd staff a rhanddeiliaid yn barod i gymryd rhan mewn gweithgareddau i wella canlyniadau i garcharorion.

- **Galluogi:** Bydd arweinyddion yn darparu'r adnoddau angenrheidiol i alluogi canlyniadau da i garcharorion.

- **Gwelliant parhaus:** Bydd arweinyddion yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau sy'n hybu canlyniadau da i garcharorion. Byddant yn monitro'n ofalus unrhyw gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn.

Yn ein Disgwyliadau, mae'r term 'arweinydd' yn cyfeirio at unrhyw un â chyfrifoldeb arwain neu reoli. Nid yw ein Disgwyliadau arweinyddiaeth yn cael eu sgorio ar hyn o bryd.

Triongli tystiolaeth arolygu

3.29 Bydd arolygwyr, pan yn bosibl, yn seilio holl ganfyddiadau/dyfarniadau arolwg ar driongli sawl ffynhonnell o dystiolaeth. Yn yr achos hwn, yr hyn mae triongli'n ei wneud yw cadarnhau ffynhonnell tystiolaeth gydag o leiaf ddwy ffynhonnell arall wahanol (er weithiau bydd digwyddiadau/canfyddiadau'n ddigon pwysig i sefyll ar eu pen eu hunain). Pan yn bosibl, ceisir cael cydbwysedd rhwng data meintiol, fel rhai sy'n dangos patrwm dros gyfnod, o leiafswm o chwe mis er enghraifft, a ffynonellau tystiolaeth ansoddol, fel cyfweliadau a grwpiau, a all roi rheswm am y patrwm. Bydd arolygwyr yn ymdrechu bob amser i gael tystiolaeth ategol o ffynonellau amgen ond perthnasol.

3.30 Mae arolygwyr yn gyfrifol am arolygu triniaeth ac amodau'r boblogaeth dan gadwad yn ei chyfanrwydd. Er y gall cwynion unigol gyfrannu at ddyfarniad ar yr amodau i'r boblogaeth gyfan, ni fydd arolygwyr yn cytuno i ymchwilio i achos penodol ar ran unigolyn dan gadwad, na gwirfoddoli rhywun arall i wneud hynny. Hefyd, mae eu pwyslais ar ganlyniadau i unigolion dan gadwad a all gael eu hybu neu ddim drwy lynu wrth bolisïau a thargedau rheoli presennol. Gall yr Arolygiaeth ddewis anghytuno â pholisïau nad ydynt yn gweithredu er lles pennaf unigolion dan gadwad a gallant nodi meysydd sy'n achos pryder neu wneud argymhellion i newid o ganlyniad i hynny.

Adrodd yn ôl wrth reolwyr

3.31 Mae arolygu'n broses dryloyw. Bydd rheolwyr yn cael eu diweddaru am ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg drwy gydol yr arolygiad, a bydd arolygwyr yn dangos tystiolaeth dros eu canfyddiadau a byddant yn annog eu herio ar sail tystiolaeth. Erbyn diwedd y broses, bydd arolygwyr yn sicrhau bod y rheolwr yn deall yr hyn a ganfuwyd, nad oes ganddo ragor o wrthbrofion a'u bod yn gwybod beth maent yn debygol

o'i glywed yn yr ôl-drafodaeth ar ddiwedd yr arolygiad. Fodd bynnag, bydd casgliadau terfynol yn ôl disgresiwn y Prif Arolygydd neu'r Dirprwy Brif Arolygydd.

3.32 Bydd arweinydd tîm hefyd yn adrodd yn ôl ar y prif ganfyddiadau wrth Lywodraethwr/Cyfarwyddwr neu Brif Weithredwr y sefydliad o leiaf yn ddyddiol, a bydd hefyd yn annog heriau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ystod y sgyrsiau hyn.

Methodoleg mewnfudo

3.33 Defnyddir methodoleg estynedig yn ystod arolygiadau mewn canolfannau symud mewnfudwyr, sy'n golygu bod arolygiadau yn cael eu cynnal dro gyfnod o dair wythnos. Gwneir hyn yn bennaf i ganiatáu amser i gynnal a dadansoddi cyfweliadau â mewnfudwyr dan gadwad, sydd i gyd yn cael cynnig cyfweliad cyfrinachol ag arolygwyr, gan ddefnyddio cyfieithwyr os bydd angen. Gall staff hefyd gael eu cyfweld os byddant yn gofyn am gael siarad ag arolygwyr.

Cwblhau arolygiad

3.34 Un o nodweddion allweddol y broses arolygu yw presenoldeb y Prif Arolygydd Carchardai neu'r Dirprwy Brif Arolygydd Carchardai ar ddiwrnod olaf ond un yr arolygiad. Eu rôl yw cyfarwyddo'u hunain â'r sefydliad sy'n cael ei arolygu, a chyfrannu at y broses sicrhau ansawdd ac asesu ar ddiwedd yr arolygiad.

'Trafod' a dyfarnu

3.35 Bydd perfformiad sefydliad yn cael ei asesu yn erbyn y profion sefydliad iach cymwys a ddisgrifir yn y Disgwyliadau perthnasol.

Mewn carchardai a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, y pedwar prawf yw:



3.36 Bydd y prif ganfyddiadau ac asesiadau'n cael eu cyflwyno i'r sefydliad ar ddiwrnod olaf yr arolygiad.

Asesiad

3.37 Bydd y tîm arolygu'n asesu perfformiad y sefydliad yn erbyn y profion sefydliad iach cymwys gan ddefnyddio'r dyfarniadau canlynol.

Rhifol	Diffiniad
4	**Mae canlyniadau i garcharorion yn dda.** Nid oes tystiolaeth bod unigolion dan gadwad yn cael eu heffeithio'n andwyol mewn unrhyw feysydd arwyddocaol.
3	**Mae canlyniadau i garcharorion yn rhesymol o dda.** Mae tystiolaeth o ganlyniadau andwyol i unigolion dan gadwad mewn nifer fach o feysydd yn unig. I'r mwyafrif nid oes pryderon arwyddocaol.
2	**Nid yw canlyniadau i garcharorion yn ddigon da.** Mae tystiolaeth bod canlyniadau i unigolion dan gadwad yn cael eu heffeithio'n andwyol mewn llawer o feysydd neu'n benodol yn y meysydd hynny sydd bwysicaf i lesiant unigolion dan gadwad. Mae problemau/pryderon, os na chânt sylw, yn debygol o ddatblygu i fod yn feysydd pryder difrifol.
1	**Mae canlyniadau i garcharorion yn wael.** Mae tystiolaeth bod y canlyniadau i unigolion dan gadwad yn cael eu heffeithio'n ddifrifol gan arferion cyfredol. Mae methiant i sicrhau triniaeth a/neu amodau digonol hyd yn oed i rai dan gadwad. Mae angen cymryd camau cywirol ar unwaith.

Arolygon ymadael

3.38 Ar ddiwrnod olaf yr arolygiad, anfonir arolygon ymadael at y sefydliad a arolygwyd. Mae'r arolwg ymadael yn casglu sylwadau gan staff y sefydliad ar sut yr oeddent yn teimlo bod yr arolygiad wedi'i gynnal; mae hyn yn galluogi'r Arolygiaeth i fonitro a gwella sut mae'n arolygu pob math o sefydliad.

Cyhoeddi adroddiadau

3.39 Mae adroddiadau arolygu'n cael eu cyhoeddi mewn templedi safonol i sicrhau cysondeb o ran arddull a fformat. Bydd adroddiadau a gyhoeddir yn nodi'n glir unrhyw bryderon neu argymhellion sydd angen sylw gan arweinyddion (gweler isod mewn cysylltiad â chynlluniau gweithredu) ac fe ddilynir arnynt gan arolygwyr yn yr arolygiad nesaf neu'r adolygiad annibynnol o gynnydd. Bydd adroddiadau drafft yn cael eu hanfon at y corff a arolygwyd i wirio cywirdeb ffeithiol cyn ei gyhoeddi. Dylai pob adroddiad arolygu carchardai gael eu cwblhau a'u cyhoeddi o fewn 14 wythnos ar ôl diwedd yr arolygiad.

Yn dilyn yr arolygiad

3.40 Yn unol â phrotocolau cytunedig, dylai carchardai a arolygwyd gynhyrchu cynllun gweithredu cychwynnol sy'n ymateb i'r argymhellion a wnaed neu'r pryderon a godwyd gan yr Arolygiaeth. Dylai'r cynllun gweithredu fod ar gael dri mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad. Dylai'r cynllun gweithredu ddangos y camau a gymerwyd neu y bwriedir eu cymryd mewn ymateb i bob argymhelliad neu faes pryder ynghyd â'r amserlen ar gyfer pob cam. Byd camau gweithredu gan gyrff a arolygwyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Carchardai EF.

3.41 Bydd arweinyddion timau'n gwirio ac yn herio cynnwys y cynllun gweithredu cychwynnol os bydd angen, yn dilyn trafodaethau â'r Prif neu Ddirprwy Brif Arolygydd. Mae cynlluniau gweithredu'n ffurfio rhan o'r gronfa ddata o wybodaeth a ddefnyddir gan yr Arolygiaeth i lywio arolygiadau dilynol. Disgwylir y bydd arolygwyr felly yn cyfeirio at gynlluniau gweithredu a thystiolaeth ddogfennol ac electronig eraill i baratoi ar gyfer arolygiad.

Arolygiadau lle rhoddir rhybudd

3.42 Mae arolygiadau lle rhoddir rhybudd yn dilyn yr un drefn ag arolygiadau dirybudd (a ddisgrifir yn yr adran flaenorol), heblaw bod wythnos gyntaf yr arolygiad yn digwydd fel arfer bedair i chwe wythnos cyn yr arolygiad. Mae'r Prif Arolygydd yn cadw'r hawl i gyhoeddi arolygiad ymlaen llaw os oes angen gweithredol am hynny, er enghraifft, arolygiad mewn awdurdodaethau eraill, neu os gallai helpu'r sefydliad i roi sylw i bryderon ac i wneud gwelliannau.

3.43 Bydd arolygwyr yn arwain y swyddog cyswllt drwy ofynion y tîm arolygu.

Hysbysiad brys

3.44 Wrth arolygu carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc a STC (yr olaf drwy gytundeb HMCI Ofsted a Phrif Arolygydd CQC o Wasanaethau Meddygol Sylfaenol a Gofal Integredig), mi all Arolygiaeth Carchardai EF ganfod pryderon sylweddol o ran triniaeth ac amodau'r rhai sydd dan gadwad. Mewn achos o'r fath, bydd y Prif Arolygydd yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder o fewn saith diwrnod calendr i ddiwedd yr arolygiad.

Gwneir unrhyw benderfyniad i roi hysbysiad brys o bryderon sylweddol i'r Ysgrifennydd Gwladol yn ôl crebwyll HMCIP (ac yn achos STCau, gwneir y penderfyniad ar y cyd â HMCI Ofsted a Phrif Arolygydd CQC o Wasanaethau Meddygol Sylfaenol a Gofal Integredig). Bydd y dyfarniad yn cael ei lywio gan ffactorau perthnasol a amlygwyd yn ystod yr arolygiad a gall gynnwys:

- asesiadau gwael yn y prawf carchar iach
- patrwm y dyfarniadau prawf carchar iach

- asesiadau gwael mynych
- y math o garchar a'r risgiau a amlygir
- pa mor agored i niwed yw'r rhai dan gadwad
- methiant i roi sylw i feysydd pryder neu i weithredu ar argymhellion
- hyder yr Arolygydd yng ngallu'r sefydliad i newid a gwella.

3.45 Yn achos carchardai a sefydliadau troseddwyr ifanc bydd y Prif Arolygydd yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol (a'i gopïo i randdeiliaid perthnasol) o fewn saith diwrnod calendr i ddiwedd yr arolygiad yn rhoi hysbysiad brys o'r pryderon sylweddol a'r rhesymau am y pryderon hynny. Bydd yr hysbysiad yn crynhoi'r dyfarniadau ac yn nodi materion lle mae angen eu gwella. Fel rhan o'r broses arolygu bydd Llywodraethwr neu Gyfarwyddwr y sefydliad dan sylw wedi'u briffio ar fwriad y Prif Arolygydd. Bedair awr ar hugain ar ôl i'r llythyr gael ei anfon yn breifat at yr Ysgrifennydd Gwladol, bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Carchardai EF a'i ddosbarthu i'r cyfryngau a thrwy gyfryngau cymdeithasol.

3.46 Mae arolygiadau o STCau yn cael eu cynnal gan Ofsted, Arolygiaeth Carchardai EF a'r Comisiwn Ansawdd Gofal o dan Fframwaith Cyd-arolygu.[4] Yn achos STC, os bydd y Prif Arolygwyr yn penderfynu defnyddio'r broses hysbysiad brys, bydd Ofsted, fel yr arolygiaeth arweiniol, yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ar ran yr arolygwyr i nodi'r pryderon sydd ganddynt i gyd. Fel rhan o'r broses arolygu bydd Cyfarwyddwr y sefydliad dan sylw wedi cael eu briffio ar y bwriad i gyhoeddi hysbysiad brys. Bydd y Cyfarwyddwr hefyd yn cael copi o'r llythyr yr un pryd ag y bydd yn cael ei anfon at yr Ysgrifennydd Gwladol. Bedair awr ar hugain ar ôl i'r llythyr gael ei anfon yn breifat at yr Ysgrifennydd Gwladol, bydd yn cael ei gyhoeddi gan Ofsted.

3.47 Ar ôl cael hysbysiad brys, bydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol 28 diwrnod calendr i ymateb yn gyhoeddus i'r pryderon a fynegwyd yn y llythyr a gyhoeddwyd. Bydd yr ymateb yn egluro sut y caiff canlyniadau i rai dan gadwad yn y sefydliad yn cael eu gwella ar unwaith ac yn y tymor hwy.

3.48 Yn dilyn hysbysiad brys yn achos carchar neu sefydliad troseddwyr ifanc, bydd Arolygiaeth Carchardai EF yn ail-arolygu'r sefydliad yn y man ar ddyddiad a bennir gan ei broses amserlenni sy'n seiliedig ar risg. Yn dilyn hysbysiad brys yn achos STC, bydd yr arolygiad neu'r ymweliad nesaf yn unol â'r Fframwaith Cyd-arolygu.

Adolygiadau annibynnol o gynnydd

3.49 Yn ychwanegol at ei rhaglen o arolygiadau, mae Arolygiaeth Carchardai EF hefyd yn cynnal adolygiadau annibynnol o gynnydd (IRPau) mewn carchardai a sefydliadau troseddwyr ifanc. Diben IRP

[4] Mae arolygiadau o STCau yn cael eu cynnal gan Ofsted, Arolygiaeth Carchardai EF a'r Comisiwn Ansawdd Gofal o dan Fframwaith Cyd-arolygu, Joint inspection framework: secure training centres - GOV.UK (www.gov.uk). Am esboniad llawn o'r fethodoleg ar y cyd, gweler y Fframwaith hwnnw.

yw asesu cynnydd wrth roi sylw i'r argymhellion neu feysydd pryder a wnaed yn yr arolygiad blaenorol, i hybu gwelliant mewn carchardai a sefydliadau troseddwyr ifanc, ac i ganfod rhwystrau rhag gwneud cynnydd.

3.50 Mae IRPau yn wahanol i arolygiadau, sy'n asesu triniaeth carcharorion ac amodau cadw yn erbyn Disgwyliadau Arolygiaeth Carchardai EF a'r pedwar prawf carchar iach. Mae IRPau yn hytrach yn gwneud gwaith dilynol ar ddetholiad o argymhellion neu feysydd pryder a wnaed ac maent yn gwneud dyfarniadau ar faint o gynnydd a wnaed.

3.51 Mae safleoedd yn cael eu dethol yn ôl disgresiwn y Prif Arolygydd, ond rhoddir ystyriaeth arbennig i'r ffactorau canlynol:

- Sgoriau (1) HPT gwael
- Patrwm dyfarniadau carchar iach
- Arolygiadau gwael mynych
- Y math o garchar a'r risgiau sy'n dod i'r amlwg
- Pa mor agored i niwed yw'r rhai dan gadwad
- Methiant i weithredu ar argymhellion blaenorol
- Lefel hyder yn yr arweinyddiaeth a'r gallu i newid a gwella
- Bod y Prif Arolygydd yn credu y byddai adolygiad dilynol yn helpu i gynnal gwelliant.

3.52 Bydd Arolygiaeth Carchardai EF yn cynnal 15 i 20 o IRPau bob blwyddyn fusnes. Bydd adolygiadau fel arfer yn digwydd 8 i 12 mis ar ôl yr arolygiad.

3.53 Mae IRPau yn ymweliadau byr lle rhoddir rhybudd ymlaen llaw, a fydd yn cynnwys pedwar neu bump arolygydd am 2.5 diwrnod. Bydd yr arolygwyr yn asesu maint y gwelliant ers yr arolygiad blaenorol yn erbyn uchafswm o 15 o argymhellion neu feysydd pryder (bydd y rhain bob amser yn cynnwys unrhyw bryderon blaenoriaethol) a byddant yn gwneud un o bedwar dyfarniad posibl yn achos pob argymhelliad neu faes pryder.

Dyfarniad	Diffiniad
Dim cynnydd gwirioneddol	Nid yw rheolwyr eto wedi ffurfio nac ariannu cynllun gwella realistig ar gyfer yr argymhelliad neu'r maes pryder hwn.
Cynnydd annigonol	Mae rheolwyr wedi dechrau gweithredu strategaeth wella realistig ar gyfer yr argymhelliad neu'r maes pryder hwn, ond nid yw'r camau a gymerwyd wedi arwain eto at unrhyw dystiolaeth bendant o gynnydd (er

Dyfarniad	Diffiniad
	enghraifft, systemau a phrosesau gwell) neu ganlyniadau gwell i garcharorion.
Cynnydd rhesymol	Mae rheolwyr yn gweithredu strategaeth wella realistig ar gyfer yr argymhelliad neu'r maes pryder hwn, ac mae tystiolaeth o gynnydd (er enghraifft, systemau a phrosesau gwell) a/neu dystiolaeth gynnar o beth gwelliant mewn canlyniadau i garcharorion.
Cynnydd da	Mae rheolwyr wedi gweithredu strategaeth wella realistig ar gyfer yr argymhelliad neu'r maes pryder hwn, ac wedi cyflawni gwelliant pendant mewn canlyniadau i garcharorion.

3.54 Cyhoeddir adroddiadau IRP o fewn 25 diwrnod gwaith i ddiwedd yr adolygiad.

Section 4 Rhagor o wybodaeth

4.1 Am ragor o wybodaeth am y broses arolygu, gan gynnwys amddiffyn rhai dan gadwad rhag cosbau a meysydd pwnc newydd ac sy'n datblygu, a'n safonau proffesiynol, gan gynnwys ymddygiad staff a chwynion, gweler gwefan Arolygiaeth Carchardai EF, https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/, neu'r dogfennau cysylltiedig:

- Disgwyliadau (ar gael ar gyfer gwahanol fathau o sefydliad)
- Geirfa adroddiadau
- Cod ymddygiad staff Arolygiaeth Carchardai EF
- Polisi a phrotocol diogelu Arolygiaeth Carchardai EF

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
3rd Floor
10 South Colonnade
Canary Wharf
Llundain
E14 4PU